



Cynllun Cynefin
Cymorth Cynllunio Cymru



CYNLLUNIO YMLAEN LLAW: Cynllunio gyda'ch cymuned

Canllawiau Cymunedol
Cynllun Cynefin Kickstarter **1/6**



CYNLLUNIO YMLAEN LLAW: Cynllunio gyda'ch cymuned

Canllawiau Cymunedol Cynllun Cynefin Kickstarter 1/6

Beth yw'r ddogfen hon?



Mae'r canllaw hwn yn archwilio llunio cynlluniau sy'n cael eu harwain gan y gymuned.

Mae'n edrych ar y gwahanol fathau o gynlluniau y gall cymunedau eu cynhyrchu a'r hyn sydd angen ei wneud i wneud cynllun da sy'n sicrhau canlyniadau.

Paratowyd y canllaw hwn gan Gymorth Cynllunio Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r prosiect 'Cynllun Cynefin Kickstarter' gydag arian gan Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU Cymru.

Ar gyfer pwy y mae o?



Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref a / neu grwpiau cymunedol yng Nghonwy sydd naill ai:

- Wedi cwblhau Cynllun Cynefin Kickstarter ac yn ystyried y camau nesaf, neu:
- Yn ystyried cynhyrchu rhyw fath o gynllun cymunedol ac maen nhw'n pendroni ble i ddechrau.

Mae'r canllaw yn rhan o gyfres sy'n archwilio cynllunio dan arweiniad y gymuned; Gellir lawrlwytho'r canllawiau hyn o

www.placeplans.org.uk/conwyguides

Cynnwys


| | |
|---|-----------|
| Beth yw cynllun? | 4 |
| Pam Cynllunio o gwbl? | 5 |
| Mynd o fan hyn i fanna! Pethau allweddol i'w hystyried ar gyfer llunio cynllun | 6 |
| Cam Kickstarter | 7 |
| Cam llunio cynllun | 9 |
| Cam cynllunio gweithredu | 13 |
| Gwybodaeth bellach | 16 |

Beth yw Cynllun?

At ddiben y canllawiau hyn, **mae cynllun yn ddogfen sy'n cael ei pharatoi gan y gymuned i nodi'r hyn maen nhw am ei wella neu ei gyflawni yn eu hardal.**

Mae sawl enw ar gynlluniau y gall cymunedau eu cynhyrchu yng Nghymru:

- Cynlluniau Cymunedol – nid oes diffiniad sefydlog o gynllun cymunedol; gallant ymdrin ag unrhyw bwnc, unrhyw brosiect ac unrhyw faes daearyddol.
- Cynlluniau Creu Lle – dylai ystyried a chynnwys yr holl faterion mewn ffordd unedig ac yn tueddu i ganolbwyntio ar brosiectau adfywio mewn mannau penodol.
- Cynlluniau Lle – dogfennau sy'n canolbwyntio ar faterion cynllunio defnydd tir mewn ardaloedd ward gymunedol ac yn cyflwyno polisiâu a blaenoriaethau cynllunio cymunedol. Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu paratoi gan Gyngorau Cymuned a Thref a gellir eu mabwysiadu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (adrannau cynllunio mewn Awdurdodau Lleol). **[Gweler Canllaw 2 am fwy o wybodaeth am Gynlluniau Lle.](#)**



Gall fod yn anodd weithiau penderfynu pa fath o gynllun i'w gynhyrchu nes bod gennych ddealltwriaeth dda o **flaenoriaethau cymunedol**.

Cafodd y prosiect 'Cynllun Cynefin Kickstarter' ei gynllunio i helpu pedwar cyngor tref yng Nghonwy (Llanfairfechan, Penmaenmawr, Llanrwst a Chonwy) i archwilio dymuniadau ac anghenion eu cymunedau a helpu i benderfynu pa fath o gynllun allai fod yn addas i'r cymunedau hyn yn y dyfodol.

Bwriad y **[Cynlluniau Kickstarter](#)** a gynhyrchwyd ar gyfer y prosiect hwn oedd gweithredu fel cynllun cychwynnol sy'n adnabod blaenoriaethau cymunedol, yn archwilio pa fath o gynllun allai fod yn addas ac yn cyflwyno map llwybr a chynllun gweithredu ar gyfer cynhyrchu cynllun llawn yn y dyfodol. Gallai hyn fod yn opsiwn da i gymunedau sy'n ystyried paratoi unrhyw fath o gynllun – archwilio'r materion yn gyntaf cyn ymrwmo i fath o gynllun!

Cynllunio ar gyfer pwy?

Yn aml iawn, mae cynlluniau'n cael eu gwneud **[ar gyfer](#)** cymunedau. Roedd gan y canllaw hwn a'r prosiect Kickstarter egwyddor arweiniol y dylid gwneud cynlluniau **[gyda](#)** a **[chan](#)** gymunedau.




Mae sefydlu 'gweithgor' cymunedol o gynrychiolwyr cymunedol i oruchwylio'r gwaith o baratoi (a chyflawni) y cynllun ac ymgysylltu mor eang â'r gymuned â phosibl yn hanfodol er mwyn cyflwyno cynllun cymunedol gwirioneddol (**[gweler canllaw 3](#)**).

Pam Cynllunio o gwbl?

Waeth pa fath o gynllun rydych chi'n ei ddewis, mae ystod eang o fanteision i gynhyrchu cynllun gyda'ch cymuned.

Mae cynllunio cymunedol yn galluogi i chi:

- ✓ **Gydweithio** fel cymuned i adnabod sut y gallwch wella eich ardal;
- ✓ **Meddwl yn eang** am ystod o faterion cymunedol a sut y gellid mynd i'r afael â nhw - gall hyn eich helpu i feddwl yn y tymor hwy;
- ✓ Datblygu **ymrwymiad** cymunedol a thyfu ysbryd cymunedol;
- ✓ Deall a meithrin perthnasoedd gwaith gyda **rhanddeiliaid** gan gynnwys yr awdurdod lleol ac ystod eang o sefydliadau, busnesau a grwpiau lleol;
- ✓ Paratoi **tystiolaeth** am anghenion lleol y gellir ei ddefnyddio i wneud cais am arian ar gyfer prosiectau a gweithgareddau;
- ✓ Canolbwyntio ar **weithredu** fel cymuned ([**gweler Canllaw 5**](#))




Dylai cynllun da fod yn 'strategol' - dylai ystyried blaenoriaethau cymunedol, tystiolaethu anghenion lleol, adnabod cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â grwpiau a busnesau lleol a chyflwyno gweledigaeth i sicrhau newid cadarnhaol dros ystod o gyfnodau amser.

Yn allweddol, mae rhai cyllidwyr bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gymunedau gael **rhyw fath o gynllun** ar waith cyn gwneud cais i'w cronfeydd.

Meddwl yn 'strategol'?

Yn aml, dywedir wrth gymunedau bod angen iddynt 'feddwl yn fwy strategol' wrth lunio cynlluniau neu wneud cais am gyllid. Gall hyn fod yn rhwystredig os nad yw 'meddwl yn strategol' yn cael ei ddiffinio.


Mae meddwl strategol yn broses lle rydych chi'n ystyried beth sy'n digwydd a'r hyn a allai ddigwydd o'ch cwmpas, yna gosod nodau yn unol â hynny. Mae meddwl yn strategol yn eich annog i feddwl yn y tymor hwy ac i feddwl sut y gallech ymateb i risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiect neu weithgaredd arfaethedig.



Mynd o fan hyn i fanna!

Pethau allweddol i'w hystyried wrth lunio cynlluniau

Mae gweddill y canllaw hwn yn rhannu sut i gynhyrchu cynllun i mewn i rai **camau** allweddol.



Lle i ddechrau

- Os ydych chi'n dod yn hollol ffres i gynllun cymunedol posib, mae'n bendant yn well dechrau gyda cham **Kickstarter**.
- Os ydych eisoes wedi bod drwy broses **Kickstarter** ac wedi penderfynu bod Cynllun Lle neu Gynllun Cymunedol yn iawn i chi, ewch yn syth i'r adran ar **Lunio Cynllun**.
- Os ydych eisoes wedi bod drwy broses **Kickstarter** ac wedi penderfynu mai Cynllun Gweithredu ymarferol yw'r dull gorau i chi, ewch yn syth i **Gynllunio Gweithredu**.
- Os ydych chi eisoes wedi penderfynu mai Cynllun Cymunedol, Cynllun Lle neu Gynllun Gweithredu sydd orau i chi, **stopiwch am eiliad!** Hyd yn oed os nad ydych chi'n mynd drwy'r holl gwestiynau a gweithredoedd mewn cam Kickstarter, mae'n bwysig iawn **o leiaf meddwl am bob un o'r rheini cyn cychwyn**. Gall bod yn hollol sicr bod gennych y dull cywir i chi amser ac egni.

Cam Kickstarter

Cyn dechrau, mae'n bwysig meddwl am:

- Oes angen Cynllun?
- Pa fath o Gynllun?
- Ar gyfer ein holl ardal neu dim ond canol y dref?
- Pa adnoddau pobl sydd gennym i wneud Cynllun?
- Pa adnoddau eraill allai fod ar gael i'n helpu ni?
- Beth yn union all Cynllun ei wneud i chi a'ch cymuned?
- Beth allai Cynllun ei wneud ar gyfer CBSC ac eraill?

Gallwch sefydlu **Gweithgor** i reoli'r broses a pharatoi atebion cychwynnol i'r cwestiynau uchod. Mae hyn yn cynnwys cynghorwyr etholedig a phobl rydych chi'n eu hadnabod fel rhai blaenllaw, sy'n dda am wneud i bethau ddigwydd o fewn eich cymuned - **cynrychiolwyr cymunedol** yw'r rhain.

Mae'r pwynt nesaf yn aml yn cael ei anwybyddu ond mae'n bwysig iawn. Mae'n siŵr nad ydych chi'n gwneud eich Cynllun dim ond iddo eistedd ar silff!?

Dylai unrhyw gynllun fod yn sbardun i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'ch lle a'ch cymuned, efallai ddim ar unwaith, ond dros amser. Felly, mae angen i chi feddwl am hyn o'r dechrau a gorffen gyda **Chynllun Gweithredu** ymarferol.

Dilynwyd y camau Kickstarter (gyferbyn) ym mhob un o'r 4 tref yng Nghonwy. Mae'r camau i gyd yn weddol anffurfiol ac nid oes angen eu cyflawni yn y drefn a ddarperir.

Roedd y rhan fwyaf o weithgareddau ymgysylltu yn canolbwyntio ar drafod syniadau ac yna blaenoriaethu atebion i'r cwestiynau canlynol:

1. Petai gennym £1 miliwn i'w wario ar brosiectau cymunedol, beth fydden nhw?
2. Beth rydyn ni'n ei garu am ein tref?
3. Beth yw'r heriau sy'n wynebu ein tref ni?
4. Beth yw'r cyfleoedd y dylem wneud y gorau ohonynt?
5. Sut ddylai ein tref ni edrych ymhen 15 mlynedd?
6. Sut allwn ni gyrraedd pobl yn y gymuned? (Mae hyn yn llywio gwaith ymgysylltu diweddarach).

Camau Kickstarter



Ffurio 'Gweithgor'



Sesiwn drafod gychwynnol i greu syniadau



Casglu gwybodaeth bresennol ynghylch y syniadau hynny



Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol i ddeall y lleoliad




Ymgysylltu â'r gymuned – profi'r syniadau drwy ddigwyddiadau, ymgysylltu ar-lein ac arolygon i nodi blaenoriaethau cymunedol



Llunio Gweledigaeth ddrafft a Chynllun Gweithredu Cychwynnol

Gall hyd yn oed ganlyniadau sesiwn 2 awr o drafod syniadau gyda grŵp o gynrychiolwyr cymunedol gynhyrchu mwy na digon o syniadau y gellir eu profi a'u mireinio mewn gweithgareddau ymgysylltu diweddarach.



Ym Mhrosiect Kickstarter, gofynnodd yr arolwg a digwyddiadau ymgysylltu dilynol i bobl 'bleidleisio' ar yr atebion o'r sesiwn trafod syniadau; cipiwyd crynodebau'r pleidleisiau hyn ac unrhyw sylwadau dilynol mewn rhestrau blaenoriaeth gymunedol.

Roedd yn amlwg bod set o **themâu** wedi dod i'r amlwg o fewn y rhestrau hyn (e.e. Tref ac Adeiladau, Pobl a Chymuned, Iechyd,

Tai ac ati).

Mae rhywfaint o **gasglu tystiolaeth cynnar** yn werthfawr dim ond i wirio, er enghraifft, nad gan un person yn unig y mae syniad wedi dod neu fod problem sydd wedi'i hawgrymu yn dal i fodoli – dylid datblygu hyn hyd yn oed ymhellach mewn camau llunio cynlluniau diweddarach. Mae gan Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Awdurdodau Lleol amrywiaeth eang o wybodaeth am drefi / ardaloedd cymunedol yng Nghymru.

Mae adnabod adrannau llywodraeth leol, busnesau a sefydliadau eraill sydd â 'rhan' yn eich tref yn bwysig; Gall y **rhanddeiliaid** hyn ddarparu gwybodaeth werthfawr i wneud eich cynllun yn well ac efallai y bydd yn gallu eich helpu i gyflawni'r cynllun.

Mae'r Cynllun Kickstarter canlyniadol ar gyfer pob tref yn crynhoi:

1. Sut bydd cynlluniau a blaenoriaethau eraill y llywodraeth yn effeithio ar y dref
2. Y gweithgareddau ymgysylltu cymunedol a rhanddeiliaid a wneir i baratoi'r cynllun
3. Proffil o'r dref a'r hyn y mae pobl yn ei garu amdani
4. Blaenoriaethau cymunedol ynglŷn â beth sydd angen ei wella
5. Gweledigaeth a Chynllun Gweithredu wedi'i baratoi gan y gymuned sy'n ceisio mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hynny a pha fath o gynllun y dylid ei baratoi yn y dyfodol.

Ar ddiwedd eich gwaith Kickstarter dylai fod yn glir ai'r dull gorau i chi nawr yw i frwr ymlaen â Chynllun Lle neu Gynllun Cymunedol ac, weithiau ar gyfer y ddau gynllun hyn, weithiau ar wahân, peth Cynllunio Gweithredu prosiect ymarferol.

Argymhellir, ar ddiwedd y cam Kickstarter, y dylech:

- ✓ Ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft
- ✓ Cyfnerthu'r Gweithgor, darparu adnoddau ac ati.
- ✓ Ystyried cyflwyno'r cynllun i'r TC i'w fabwysiadu
- ✓ Gweithredu'r camau ymarferol tymor byr
- ✓ Gweithio tuag at baratoi Cynllun Cymunedol llawn neu Gynllun Lle ym ml2.

Gallwch weld cynllun Kickstarter yn www.placeplans.org.uk/kickstarters

Cam Llunio Cynllun

Rydych chi'n awr yn mynd i lunio Cynllun!

Mae'r gyfres eang o gamau isod yn berthnasol i Gynlluniau Lle a Chynlluniau Cymunedol. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol y bydd Cynllun Lle yn dod yn rhan o gyfres CBSC o gynlluniau statudol, felly mae angen tystiolaeth fwy trylwyr a chynigion wedi'u diffinio'n glir iawn (**gweler canllaw 2**).




Mae'r 6 prif gam fel arfer yn cael eu gwneud mewn trefn ond mae'n debygol y bydd yn rhaid i chi fynd yn ôl ychydig weithiau wrth i fater newydd neu wybodaeth newydd ddod i'r amlwg.

Cam 1: Trafod eich materion

Mae'r cam hwn yn ymwneud â gwirio'r rhestr o faterion neu bynciau o'ch Cynllun Kickstarter* yn erbyn yr hyn sy'n bosibl ac yn briodol ar gyfer Cynllun Lle neu Gynllun Cymunedol.

Dylid trafod a chytuno hyn gyda CBSC ac unwaith y cytunir, yna mae angen ei rannu'n ôl gyda chymaint o bobl leol â phosib - mae angen iddyn nhw wybod pa fath o Gynllun ydych chi i'w ddatblygu a beth fydd, ac na fydd, yn ei gwmpasu. (*Gweler Canllaw 3 i gael cyngor ar ymgysylltu yn ystod y cam hwn a'r camau diweddarach.*)



* Os ydych chi'n hyderus am symud yn syth i Gynllun Lle neu Gymunedol, mae'n hanfodol dechrau gyda'r casgliad eang hwn o syniadau, materion ac ati a'u rhannu'n eang.

Cam 2: Gweledigaeth a Deilliannau

Cam 2A

Nawr bod gennych ddarlun llawnach a chliriach o'ch materion neu'ch pynciau, mae angen datblygu'r Weledigaeth fel datganiad cymharol fyr o'r hyn yr ydych am i'ch lle/ardal/tref fod ymhen X blwyddyn. Dyma esiampyl:



"Ymhen 20 mlynedd, bydd yn parhau i gadw ei safle fel y brif dref farchnad sy'n gwasanaethu'r de o Ddalgyllch ..., gan fanteisio ar ei thirwedd gyfoethog a'i lleoliad. Bydd yn gymuned gref ac yn fan lle mae pobl o bob oed yn dewis byw a gweithio mewn amgylchedd diogel a hygyrch. Bydd yn fan lle mae bywyd gwyllt yn ffynnu a gall yr amgylchedd naturiol a'r manau gwyrdd gael eu mwynhau gan drigolion ac ymwelwyr."

Ar gyfer cymunedau sydd wedi gwneud Cynllun Kickstarter, bydd gennych weledigaeth gychwynol eisoes i adeiladu ohoni.

Mae angen i'r Deilliannau (neu'r 'Amcanion' - gair ofnadwy!) fod yn ddatganiad cymharol fyr o beth yn union rydych chi am i'ch Cynllun ei gyflawni, h.y. beth sydd angen ei wneud i gyrraedd eich Gweledigaeth. Yna rhaid cael cynigion, polisiâu neu brosiectau yn eich cynllun i ddangos sut y byddwch yn cyflawni pob un o'r deilliannau hynny. (Ac, i'r gwrthwyneb, ni all yr un polisi, prosiect ac ati fod yn y Cynllun heb ei Ddeiliant cysylltiedig!) Dyma rai o'r Deilliannau/Amcanion o'r un lle ag yn y Weledigaeth uchod felly dylech weld y cysylltiad:

| Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd | Tai | Economi |
|---|---|--|
| Amddiffyn a gwella bywyd gwyllt. Diogelu a chreu coridorau isadeiledd gwyrdd aml-swyddogaethol sy'n gallu cefnog symudiad bywyd gwyllt ar draws | Adnabod cyfleoedd addas a fyddai'n cefnogi amrywiaeth o dai (gan gynnwys hunan-adeiladu, tai fforddiadwy a thai i bobl hŷn). | Cadw manwerthu canol trefi. Annog busnesau newydd. Cefnogi twristiaeth leol a Chanolfan Groeso newydd. |

Cam 2B

Mae'n bwysig rhannu'r Weledigaeth a'r Deilliannau mor eang â phosibl ac, yn ddelfrydol, cytuno arnynt. A diwygio os yw'r ymateb yn awgrymu newidiadau neu ychwanegiadau sylweddol (heb orffen gyda thraethodau hir!).

Cam 3: Tystiolaeth

Unwaith y byddwch yn gwybod y math o Gynllun y byddwch yn ei ddatblygu a'r materion a'r pynciau y bydd yn ymdrin â nhw, mae'n bwysig dechrau ar gasglu'r dystiolaeth ar bob mater/pwnc. (*Gweler Canllaw 4*).

Mae angen llawer o dystiolaeth os (fel yr uchod) ychydig yn fwy trylwyr a manwl ar gyfer Cynllun Lle nag ar gyfer Cynllun Cymunedol. Cofiwch gadw cofnod llawn o'r holl dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu.


Ni fydd casglu tystiolaeth yn dod i ben ar y pwynt hwn; efallai y bydd angen iddo fynd ymlaen am beth amser ond mae'n bwysig cael sylfaen dda o ddeunydd cychwynol cyn symud ymlaen i Gam 3.



Cam 4: Cynllun 'Cynnig Cyntaf'

Cam 4A

Does dim rhaid i Gynllun 'cynnig cyntaf' fod yn gyflawn ac yn derfynol i fod yn ddefnyddiol ac yn angenrheidiol - y peth olaf i'w wneud yw cyflwyno'ch cymuned gyda'r hyn sy'n edrych fel, ac maen nhw'n meddwl sydd, yn fersiwn terfynol! Gall rhai rhannau o'r cynllun cyntaf hwn fod yn agos at fod yn derfynol, eraill ddim ond yn ddrafftiau cyntaf ac mae'n debyg bod rhai agweddau yn cael eu gadael yn agored ar y pwynt hwn wrth i waith pellach barhau.



Nid oes angen i gynhyrchu drafft cyntaf fod yn fwy na thynnu rhannau a wneir gan wahanol bobl ar y Gweithgor ynghyd yn fras, ond mae'n debyg ei fod yn ddefnyddiol cael rhywfaint o help drafftio gan eraill y tu allan i'r grŵp sydd â diddordeb neu arbenigedd arbennig mewn pynciau penodol. A sgwrsio gyda phobl yn CBSC os allwch chi.

Cam 4B

Mae'n bwysig cael 'rhywbeth' allan i bobl yn y cyfnod canol hwn er mwyn iddyn nhw gael synnwyr o beth mae popeth yn gweithio tuag ato, i gadw eu diddordeb nhw yn ystod yr hyn a allai fod yn fwch hir fel arall a rhoi cyfle gwirioneddol iddyn nhw wneud sylwadau. Dyma 'ymgyngoriad' cyntaf, bron yn ffurfiol (fel gyda'r Cynllun Datblygu Lleol) felly mae angen ei reoli'n ofalus iawn o ran beth sy'n mynd allan, at bwy mae'n mynd, sut mae sylwadau a ddaw yn ôl yn cael eu cofnodi a pha newidiadau sydd wedyn yn cael eu gwneud i'ch Cynllun. (*Gweler y Pecyn Cymorth Ymgysylltu.*)

Cam 5: Diwygio'r cynllun cynnig cyntaf

Gyda lwc, bydd llawer o adborth defnyddiol gan bobl ar y Cynllun cynnig cyntaf, ar wahanol agweddau mae'n debyg ond byddwch yn ofalus, dydyn nhw ddim bob amser yn awgrymu'r un newidiadau! Yna gellir diwygio pob rhan o'r Cynllun o ran ei gynnwys sylfaenol, ac unwaith eto gall sgwrs â CBSC helpu pan fyddwch chi'n cael ymatebion croes.



Cam 6: Cynllun Terfynol (Bron)

Cam 6A

Mae cynhyrchu'r Cynllun Terfynol (bron) yn rhywbeth sydd well ei adael i ddim ond 1 neu 2 o bobl o'r Gweithgor (er y gall tynnu rhywun ffres i'r broses fod yn ddefnyddiol iawn). Y rheswm am hynny yw bod angen i bopeth nawr ddod at ei gilydd i fod yn drylwyr, yn gyson, yn cael sylw yn yr un ffordd, wedi'i ysgrifennu yn yr un arddull a'i wirio a'i wirio eto i fod yn sicr bod popeth yno.



Mae'n debyg bod angen iddo gael ei gynhyrchu'n graffigol hefyd - cynllun, arddull, ffotograffau, mapiau, diagramau ac ati - ac mae'n debyg bod angen un person i wneud hynny. (Bydd gan y rhan fwyaf o gymunedau rywun â sgiliau graffeg da; dim ond i chi chwilio amdany'n nhw a'u 'perswadio' nhw i'ch helpu chi.)

Cam 6B

Gellir galw hwn yn gam 'olaf un' oherwydd ni ddylai fod yn gyfle i fynd yn ôl, ychwanegu materion, cwestiynu deilliannau ac ati ond i wneud fawr mwy na hogi, caboli a newidiadau terfynol iawn. Mae angen sicrhau bod y Cynllun terfynol ar gael i 'bawb' (fel gyda'r cynllun cynnig cyntaf) ond ar sail 'beth sy'n wirioneddol bwysig ein bod ni efallai wedi'i fethu neu sydd wedi mynd o'i le?'. Ac, yn amlwg, yna gwneud y newidiadau manwl terfynol.

Gweithgaredd parhaus

Yn ogystal â'r camau dilyniannol uchod, mae pedwar peth sydd angen eu gwneud drwy gydol yr holl broses:



1. Cyfarfod yn rheolaidd. Dylai eich Gweithgor gwrdd o leiaf bob chwarter i oruchwylio, adolygu a gyrru cynnydd.
2. Ymgysylltu â'r gymuned. Amlygir hyn uchod ac mae'n cael ei drafod yn fanylach yn y Pecyn Cymorth Ymgysylltu.
3. Cadwch mewn cysylltiad rheolaidd â'r tair ardal/tref arall yn y fenter i rannu'r hyn sydd wedi (ac sydd heb) weithio, dysgu o sut maen nhw wedi gwneud eu Cynllun cynnig cyntaf neu derfynol ac ati.
4. Cysylltu â CBSC. Hefyd fel yr amlygwyd uchod, mae'n bwysig gwirio gyda CBSC ar bob cam, yn ddelfrydol cyn dechrau ac yn sicrhwng camau i fod yn sicr eu bod o blaid y cyfeiriad y mae eich Cynllun yn ei gymryd. Ac mae'n siŵr y bydd ganddyn nhw gyngor ymarferol da i'w gynnig.

Gyda'r Cynllun terfynol yn barod, dyma pryd mae'n cael ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghyd â set lawn o'r dystiolaeth gefndir ac adroddiad llawn ar y gwaith ymgysylltu a wnaed. Yn ddelfrydol, byddant yn ei 'fabwysiadu' mewn rhyw ffordd neu o leiaf yn rhoi arweiniad a chefnogaeth i helpu i gyflawni camau yn y cynllun **DA IAWN!**

Cam Cynllunio Gweithredu

Gall cynlluniau gymryd amser hir i gael eu cwblhau ac yna i'w cynigion gael eu gweithredu.

Bydd eich gwaith trafod syniadau cynnar bron yn sicr o gynhyrchu rhestr o bethau ymarferol y gellid eu dechrau 'nawr', cyn i Gynllun gael ei gwblhau neu cyn gynted ag y bydd y Cynllun yn ei le. Efallai na fydd angen i rai fod yn gysylltiedig â Chynllun cyffredinol ond mae'n bosib y bydd rhai yn cael eu symud ymlaen yn well fel rhan o wneud i'ch Cynllun ddigwydd.



Fel y nodwyd ar y cychwyn cyntaf, mae'r cam hwn yn aml yn mynd yn angof. Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw dim cael Cynllun ond yr effeithiau y bydd eich Cynllun yn eu cael 'ar lawr gwlad'. Y ffordd o sicrhau y bydd newidiadau yn digwydd mewn gwirionedd yw llunio Cynllun Gweithredu i gyflawni eich cynigion a'ch prosiectau.

Pa ddull i'w gymryd?

- Os ydych wedi neidio'n syth i'r cam hwn a'r cyfan y dymunwch ei wneud yw rhai prosiectau ymarferol, mae 'grid cynllunio gweithredu' yn dilyn yn fuan.
- Os ydych chi'n cynhyrchu Cynllun, efallai y byddwch chi'n dal am fynd i'r afael â rhai prosiectau ymarferol wrth weithio ar eich Cynllun, felly unwaith eto mae'r grid yn ddefnyddiol.
- Os ydych chi'n cynhyrchu Cynllun Cymunedol, dylai hynny gynnwys cynllun gweithredu gan ddefnyddio'r grid.
- Fel arfer ni fyddai Cynllun Gweithredu yn rhan o Gynllun Lle oherwydd mai dim ond y cynigion defnydd tir sy'n cael eu 'mabwysiadu' yn ffurfiol. Ond gall fod yn ddefnyddiol iawn cynnwys Cynllun Gweithredu yn eich Cynllun Lle i ddangos sut y byddai eich cynigion cynllunio defnydd tir yn cael eu cefnogi gan brosiectau ymarferol lleol.

Dyma'r grid Cynllunio Gweithredu sylfaenol y mae Cymorth Cynllunio Cymru yn awgrymu eich bod yn ei ddefnyddio:

| Pwnc: _____ | | | | |
|-------------|------------------|---------------|-----------|-------------|
| Rhif | Mater/Gweithredu | Camau penodol | Amserlen* | Gyda phwy** |
| | | | | |
| | | | | |

* Byr – Blwyddyn 1, Canolig – Blynnyddoedd 2-3, Hir – o fewn 5 mlynedd.

** Er enghraifft, CBSC, cymunedau eraill, asiantaeth wirfoddol ac ati.

Cwestiynau Allweddol

Wrth edrych yn fanwl ar unrhyw gamau penodol, mae'n dda meddwl am, trafod a gwneud nodiadau ar rai neu'r cyfan o'r canlynol, ond dim ond fel sy'n briodol - does dim angen mynd i'r afael â'r holl bwyntiau ar gyfer unrhyw brosiect a bydd rhai eisoes wedi cael sylw yn eich Cynllun:

Targedau / Nodau



- Beth yw'r prif nod?
- Beth fydd yn ei gyflawni – pa ddeillannau?
- A ddylid torri'r prosiect yn gamau? Pa mor hir fydd pob cam yn ei gymryd?
- Beth yw'r risgiau?
- Oes gennych yswiriant priodol?

Adnoddau



- A oes angen arian ar y prosiect?
- Pwy sy'n mynd i ymgeisio amdano?
- Pwy sy'n mynd i oruchwylio'r prosiect?
- Pwy sy'n mynd i weithio ar y prosiect?
- Sut ydych chi'n mynd i recriwtio gwirfoddolwyr?
- A all y TC fenthg cefnogaeth staff?

Ymgysylltu



- Pwy yw'r rhanddeiliaid y dylech chi weithio gyda nhw ar y prosiect?
- Sut allwch chi godi ymwybyddiaeth o'r prosiect?
- Sut fydd y gymuned yn siapio'r prosiect?

Data / Tystiolaeth



- Pa wybodaeth sy'n bodoli'n barod?
- Pa wybodaeth sydd angen i chi ei gasglu? Lluniau? Arolygon?
- Pwy fydd yn ei gasglu?

Caffael



- Oes angen i chi ofyn am ddyfyniadau / bidiau ar gyfer contractwyr – Pwy? Pryd? Sut?
- Oes angen dogfennau contract arnoch?

Cyflawni



- Pwy fydd yn goruchwylio gwaith y contractwyr?
- Pwy fydd yn monitro cynnydd y prosiect?
- A ddylech chi ddatblygu amserlen prosiect?

Cwblhad



- Sut fyddwch chi'n hyrwyddo ei ddefnydd?
 - Sut fyddwch chi'n sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio?
- Sut fyddwch chi'n gwybod pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau?
 - Sut fyddwch chi'n lansio'r cynllun?

Gwerthuso



- Sut fyddwch chi'n mesur llwyddiant?
- Sut fyddwch chi'n bwydo'n ôl i'r gymuned?
- Sut fyddwch chi'n defnyddio gwersi sy'n cael eu dysgu?


Cynllun Gweithredu Enghreifftiol

Mae'r canlynol yn gynllun gweithredu enghreifftiol a gwblhawyd gan gymuned.

| Pwnc: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd | | | | | | |
|---|---|--|-----------------------------|--|-------------------------|--|
| Blaenoriaeth | Gweithred | Partneriaid | Cynghorydd Arweiniol | Amserlen | Cost | Sylwadau |
| Lleihau'r defnydd o blastig untro | Lansio cynllun ail-lenwi Adolygu defnydd y Cyngor Tref o blastig untro. | Sefydliad Refill Cymru Plastic Free Ysgolion Busnes Canol Trefi | I'W GADARNHAU | Parhaus | Isel | Wedi lansio. Gŵyl Ysgrifennu a Chelfyddydau i gynnwys prosiect Refill yn eu rhaglenni. |
| Rhoi dyfodol mwy cynaliadwy i grwpiau amgylcheddol gwirfoddol. | Gweithio gyda CBS i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr sy'n weithgar mewn grwpiau 'Ffrindiau'. | Grwpiau Amgylcheddol Gwirfoddol, CBS | I'W GADARNHAU | Parhaus | | |
| Annog defnyddio cynllun plannu peillwyr yng nghynlluniau plannu sydd wedi'u hariannu gan y Cyngor | Cyfeirio contractwyr y cyngor i gynyddu plannu sy'n gyfeillgar i beillwyr | Sefydliad Bee Friendly | I'W GADARNHAU | Mewn pryd ar gyfer plannu yn y gwanwyn. | Dim costau ychwanegol . | |
| Gwella cynnal a chadw a gwella Parc a Gerddi Lleo | Ymchwilio i ddichonoldeb sefydlu tîm i gynnal y mannau gwyrdd hyn | CBS, mudiadau gwirfoddol | I'W GADARNHAU | Trafodaethau gyda CBS yn gynnar yn y flwyddyn. | | |

Gwybodaeth Bellach

Mae Canllawiau Cymunedol Kickstarter Cynllun Lle Conwy ar gael o www.placeplans.org.uk/conwyguides - mae pynciau eraill yn cynnwys:



2. Cynlluniau Lle: Canllaw i Gymunedau
3. Ymgysylltu â'r Gymuned: Canllaw i Gymunedau
4. Profwch o! Casglu Tystiolaeth dan arweiniad y Gymuned
5. Gweithredu Cymunedol: Astudiaethau Achos dan arweiniad y Gymuned a Gweithredu Eich Cynlluniau
6. Ariannu: Pryd, Ble a Sut i wneud cais am gyllid.

Mae'r Siarter Creu Lle yn rhoi crynodeb o'r ystyriaethau allweddol sy'n gysylltiedig â gwneud lle yng Nghymru: <http://dcfw.org/placemaking/placemaking-charter/>

Mae rhagor o wybodaeth am Gynlluniau Lle ar gael gan: www.placeplans.org.uk

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn darparu gwasanaethau cefnogaeth ymgysylltu â'r gymuned a Chynllun Lle: www.planningaidwales.org.uk

Mae Un Llais Cymru yn darparu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant a gwasanaethau cymorth ymgynghori ar ymgysylltu cymunedol a chynllunio cymunedol. Gweler: <http://www.onevoicewales.org.uk/OVWeb/consultancy-7450.aspx> am fwy o wybodaeth.